# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O. Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Dafydd Roberts, Margaret Murley Roberts a Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Y Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau),<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes),<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Uwch Reolwr – Tai, Strategaeth, Comisiynu a Pholisi (EL),<br>Rheolwr Grantiau (JW) (ar gyfer eitem 4),<br>Rheolwr Adfywio (DL) (ar gyfer eitem 5),<br>Rheolwr Sgriwtini Dros Dro (AD),<br>Swyddog Sgriwtini (GWR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Alun W Mummery a Alun Roberts |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos M. Huws (Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)<br><br>Mr. J. Lee MBE – Cadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr – Cymunedau yn Gyntaf Môn.<br>Mr. Keith Thomas – Cyfarwyddwr Personél - Cymunedau yn Gyntaf Môn.<br>Ms Rita Lyon - Rheolwr Clwstwr - Cymunedau yn Gyntaf Môn (ar gyfer eitem 4). |

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 3 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol fel rhai cywir :-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill, 2017
- Cofnodon y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Mai, 2017

## 4 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYMUNEDAU GYNTAF

Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o Cymunedau yn Gyntaf Môn Cyf i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Tai ar gyflawniadau Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf Môn ar gyfer 2016/17 a chynlluniau i'r dyfodol wedi i'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ddod i ben.

Dywedodd yr Aelod Portffolio (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) fod gan y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf dair thema allweddol: Cymunedau Ffyniannus; Cymunedau Dysgu a Chymunedau Iach. 'Roedd y prif ffocws yn Ynys Môn o dan y themâu Ffynniannus a Dysgu, gydag ystod o weithgareddau yn canolbwyntio ar wella sgiliau a symud y rheini sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur yn ôl i waith. Fodd bynnag, ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer Cymunedau a Phlant y byddai'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei diddymu'n raddol erbyn mis Mawrth 2018. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Cronfa Dreftadaeth o Ebrill 2018 fel y gall rhai o brosiectau mwyaf effeithiol y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf barhau. Nododd fod gan y Cyngor, fel y Bwrdd Cyflawni Arweiniol, gysylltiad agos â'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ac y bydd angen monitro'n rheolaidd i sicrhau cymorth ar gyfer y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a bod y rhaglen yn parhau i gyflawni ei gweledigaeth ar gyfer y dyfodol.

Dywedodd y Pennaeth Tai y sicrhawyd £662,200 ar gyfer gweithgareddau Cymunedau yn Gyntaf yn 2016/17. Gwnaed defnydd llawn o'r arian hwn er mwyn darparu'r ystod ganlynol o weithgareddau: -

- Cymorth Craidd ar gyfer Cyflogaeth
- Cymorth i Fentrau Cymdeithasol
- Cymorth i Fentrau
- Cynhwysiad ariannol
- Cynhwysiad digidol
- Darpariaeth Ieuenctid
- Darpariaeth Sgiliau Sylfaenol
- Academi Alwedigaethol Gymunedol

Er y bydd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei diddymu'n raddol erbyn Mawrth 2018 dywedodd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Cronfa Etifeddiaeth o £6m y flwyddyn o Ebrill 2018; bydd y gronfa'n gweithredu am gyfnod o 4 blynedd. Ni fydd y cyllid mwyach yn cael ei dargedu tuag at glystyrau daearyddol a bydd hynny'n caniatáu i gymunedau eraill ar Ynys Môn elwa ar y Gwasanaethau Cymorth Cyflogaeth a gynigir gan Cymunedau yn Gyntaf Môn. Mae Cymunedau yn Gyntaf Môn wedi bod yn llwyddiannus dros nifer o flynyddoedd yn sicrhau cyllid allanol ychwanegol fel y dangoswyd yn Atodiad 3 o'r adroddiad.

Cyfeiriodd y Pennaeth Tai at ystod o wasanaethau a roddir i ardaloedd difreintiedig Ynys Môn ac yn benodol at y datblygiad allweddol cyntaf, sef Pod Ieuenctid yn Stryd y Farchnad, Caergybi. Sefydlwyd y Pod i helpu pobl ifanc trwy gynnig ystod o gyfleusterau gyda'r nos

ac yn ystod gwyliau'r ysgol ac fe'i defnyddir fel canolfan galw i mewn ar gyfer ymgynghori â'r gymuned a digwyddiadau eraill yn ystod y dydd.

Awgrymodd y byddai o fantais i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ymweld â Cymunedau yn Gyntaf Môn yng Nghaergybi i gael cipolwg ar y gweithgareddau a gynigir gan y cwmni.

Gan mai'r Cyngor yw'r Bwrdd Cyflawni Arweiniol, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth ymhellach fod raid cyflwyno cynllun manwl ar raglen Cymunedau yn Gyntaf Môn i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mai, 2017. Bydd hefyd yn ofynnol i'r Cyngor nodi modelau amgen ar gyfer cynnal strwythur cynlluniau a ariennir drwy grant oni fydd CG Môn yn gallu parhau yn ei ffurf bresennol. Os bydd Cymunedau Môn Ymlaen yn gallu denu cyllid allanol o ffynonellau eraill a dangos ei fod yn gynaliadwy i'r dyfodol, bydd y sefydliad mewn sefyllfa dda i barhau i weithio mewn partneriaeth â'r Cyngor Sir. Bydd y Pecyn Cymorth Partneriaeth newydd yn berthnasol i'r bartneriaeth, sef y pecyn cymorth a gymeradwywyd i'w fabwysiadu gan y Pwyllgor hwn. Awgrymodd fod adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn ym mis Hydref i fonitro'r perfformiad 6 mis yn erbyn y targedau ac y dylid hefyd roi copi iddo o'r pecyn adolygu partneriaethau i ddangos cadernid a chynaliadwyedd Cymunedau Môn Ymlaen ar gyfer cyflawni'r ddau grant cyflogadwyedd sy'n weddill, ar ôl mis Mawrth 2018.

Rhoddodd Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr, Mr Jimmy Lee MBE, grynodeb byr o'r ailstrwythuro sydd wedi digwydd o ganlyniad i doriad o 30% yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn cadw'r brand sydd wedi ei sefydlu, mae Cymunedau yn Gyntaf Môn Cyf., wedi newid eu henw masnachu i Cymunedau Môn Ymlaen Cyf.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Personél, Mr. Keith Thomas, fod gan Cymunedau Môn Ymlaen Cyf., weledigaeth i barhau â'i wasanaethau er budd pobl yr Ynys. Nododd bod rhaglen wedi ei gosod allan ar gyfer y 4 - 5 mlynedd nesaf a fydd yn ymdrechu i chwilio am waith ac i wella sgiliau ar gyfer pobl ar draws yr Ynys.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r adroddiad a chodwyd y prif faterion a ganlyn: -

- Gofynnwyd a yw Cymunedau Môn Ymlaen Cyf., yn gallu ymdopi â'r toriad o 30% yn y gyllideb fel y nodwyd yn yr adroddiad. Ymatebodd y Rheolwr Clwstwr fod newidiadau sylweddol wedi eu gwneud o fewn CG Môn i gwrdd â'r toriad o 30%. Mae CG Môn wedi ymdrechu i gadw cymaint o'r gwasanaethau ag y bo modd. Mae'r cwmni wedi llwyddo i sicrhau arian grant o ffynonellau eraill fel yr amlygwyd yn yr adroddiad. Ychwanegodd bod yr holl wasanaethau targed a nodwyd yn rhaglen waith Cymunedau'n Gyntaf Môn wedi eu darparu yn 2016/17.
- Holwyd a yw CG Môn yn darparu gweithgareddau ar gyfer yr henoed. Ymatebodd y Rheolwr Clwstwr bod rhywfaint o arian ar gael i staff CG Môn fynychu digwyddiadau megis Clybiau Cinio ac i'w holi am eu hanghenion ac i rannu gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael gan y cwmni i'r gymuned leol.

**PENDERFYNWYD llongyfarch Cymunedau yn Gyntaf Môn am eu gwaith a'u llwyddiant a bod y Cyngor yn cefnogi Cymunedau Môn Ymlaen Cyf, i ehangu a pharhau ei waith da.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

## 5 RHAGLEN LLEOEDD LLEWYRCHUS LLAWN ADDEWID

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd yr Aelod Portffolio (Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Datblygu Economaidd) mai'r Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (LILILIA) yw fframwaith adfywio trefol Llywodraeth Cymru, a oedd yn sail ar gyfer dyrannu £100 miliwn o arian cyfalaf yn y cyfnod Ebrill 2014 - Mawrth 2017. Gwahoddwyd pob awdurdod lleol yng Nghymru i gyflwyno cynigion amlinellol ar gyfer y grant LILILIA a llwyddodd Caergybi i ddenu grant arian cyfalaf o £7.49m dros dair blynedd. Roedd y rhaglen yn seiliedig ar fynd i'r afael ag anghenion a chyfleoedd o dan dair thema a oedd yn adlewyrchu blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru, h.y. Cartrefi, Lle a Phobl. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n anffurfiol fod rhaglen adfywio trefol newydd yn debygol o ddigwydd, yn dechrau ym mis Ebrill 2018, ond nid oes cyhoeddiad ffurfiol wedi'i wneud eto.

Dywedodd y Rheolwr Adfywio y sefydlwyd Bwrdd Rhaglen LILILIA o Uwch Swyddogion y Cyngor a Llywodraeth Cymru er mwyn goruchwylio a llywio'r rhaglen yn ei chyfanrwydd. 'Roedd y rhaglen a'r prosiectau sy'n rhan ohoni'n cael eu cyflawni drwy dri phrif fecanwaith : -

- Y Swyddfa Raglen ar gyfer LILILIA yn cyflawni elfennau yn uniongyrchol, sef cynlluniau prosiect ac astudiaethau, digwyddiadau, cysylltiadau cyhoeddus, gwerthuso ac ati
- Swyddogion eraill y Cyngor yn cyflawni prosiectau cyfalaf, gan ddefnyddio arian LILILIA a ddyrannwyd iddynt trwy broses grantiau mewnol, fel arfer ochr yn ochr ag arian arall
- Sefydliadau eraill yn cyflawni prosiectau cyfalaf, gan ddefnyddio arian LILIA a ddyfarnwyd iddynt drwy broses grantiau allanol, fel arfer ochr yn ochr ag arian arall

Yn seiliedig ar y meini prawf gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen LILILIA, nododd ei fod yn amlwg mai Caergybi oedd yr unig gais realistig o Ynys Môn. 'Roedd yr arian LILILIA yn cael ei ddyrannu dros dair blynedd o dan saith pennawd cyllideb y cytunwyd arnynt â Llywodraeth Cymru. 'Roedd symiau'r cyllid a ddyrannwyd i'w gweld yn yr adroddiad.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau) fod y Rhaglen wedi sicrhau gwelliannau sylweddol i dref Caergybi. Cyfeiriodd at y prosiect mawr yn Neuadd y Farchnad yng Nghaergybi a fydd yn gwella cyfleusterau yn y dref.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r adroddiad a chodwyd y prif faterion a ganlyn: -

- Holwyd ynghylch dyrannu cyllid LILILIA tuag at y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yng Nghaergybi. Ymatebodd y Rheolwr Adfywio fod tua £500k o arian LILILIA wedi ei ddyrannu tuag at yr Ysgol Cybi newydd yng Nghaergybi, sy'n rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn yr ardal. Bydd tair ysgol gynradd yn cael eu hymgorffori o fewn yr Ysgol Cybi newydd;
- Holwyd a allai tref eraill ar yr Ynys elwa o raglen adfywio trefol newydd bosib yn y dyfodol. Ymatebodd y Rheolwr Adfywio bod yn rhaid i unrhyw gais a wneir yn y dyfodol fod yn realistig a chydymffurfio â'r meini prawf gan Lywodraeth Cymru. 'Rydym yn disgwyl am y meini prawf hynny ar hyn o bryd. Nododd y bydd trefi mawr eraill yng Nghymru hefyd yn cystadlu am gyllid o'r fath. Nododd ymhellach bod cyllid grant arall ar gael o ffynonellau eraill megis yr NDA a'r Loteri ar gyfer prosiectau ar yr Ynys;
- Holwyd ynghylch sylwadau a wnaed yn yr adroddiad bod meini prawf a gofynion Llywodraeth Cymru o ran darparu tystiolaeth wedi golygu llwyth gwaith sylweddol.

Ymatebodd y Rheolwr Adfywio bod y gwaith monitro a thystiolaethu ar gyfer y rhaglen LILILIA wedi bod yn faich sylweddol i'r Tîm a fu'n ymwneud â'r cynllun ac anfonwyd sylwadau i'r perwyl at Lywodraeth Cymru. Nododd fod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso proses fonitro sy'n fwy hyblyg o ran rhaglenni LILILIA tebyg ar gyfer y dyfodol.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a diolch i'r Swyddogion am y gwaith a gyflawnwyd yn gysylltiedig â'r rhaglen LILILIA.**

**GWEITHREDU: Dim**

## 6 ENWEBU AELODAU SGRIWTINI I WASANAETHU AR BANELAU A BYRDDAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro mewn perthynas â'r uchod.

Cyfeiriodd y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro at y Panelau a'r Byrddau y mae angen cynrychiolaeth arnynt o blith Aelodau Sgriwtini. 'Roedd cylch gorchwyl yr holl Banelau a Byrddau ynghlwm wrth yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD penodi'r aelodau canlynol ar y Panelau a'r Byrddau: -**

- **Panel Gwella Gwasanaethau Plant - Y Cynghorydd G O Jones**
- **Panel Sgriwtini Cyllid - Y Cynghorwyr Dafydd Roberts a Robin Williams**
- **Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion – y Cynghorwyr Vaughan Hughes, Eric Jones, G O Jones a Margaret M. Roberts**
- **Bwrdd Trawsnewid Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau - y Cynghorydd G O Jones. Dirprwy Aelod - Y Cynghorydd R.Ll. Jones**
- **Bwrdd Rhaglen Moderneiddio Ysgolion - Y Cynghorydd Robin Williams**
- **Bwrdd Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmer - y Cynghorydd Glyn Haynes**
- **Panel Rhiant Corfforaethol - y Cynghorydd Margaret M. Roberts**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

## 7 RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini ar Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Mai, 2018.

**PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith hyd at fis Mai 2018.**

**GWEITHREDU : Dim**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.20 o'r gloch

**CYNGHORYDD G.O. JONES**
**CADEIRYDD**